| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Cyngor Sir |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 8 Rhagfyr 2020 |
| Aelod/Swyddog Arweiniol: | Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| Awdur yr Adroddiad: | Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, AD a Chyfreithiol<br>Lisa Lovegrove, Prif Archwilydd Mewnol |
| Teitl: | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn sôn am waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio (y Pwyllgor) yn ystod 2019/20.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I hysbysu'r holl Aelodau am waith y Pwyllgor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae'n ofyniad statudol ar y Cyngor i fod â Phwyllgor Archwilio. Y Pwyllgor yw pwyllgor dynodedig y Cyngor at y diben hwn. Rôl statudol y Pwyllgor Archwilio yw adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr Awdurdod, llunio adroddiadau ac argymhellion ynghylch materion ariannol yr Awdurdod, adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod, a darparu adroddiadau ac argymhellion i'r Awdurdod ar addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor oruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr Awdurdod, ac adolygu datganiadau ariannol a baratoir gan yr Awdurdod. Y Pwyllgor hefyd yw'r corff sy'n gyfrifol am adolygu'r Cyfansoddiad.

4.2 Yn un ôl â Chyfansoddiad y Cyngor, mae'n rhaid i'r Pwyllgor gynnwys hyd at chwe Aelod Etholedig a bod yn wleidyddol gytbwys. Nid oes gofyniad statudol i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys. Mae gofyniad statudol i gael o leiaf un aelod lleyg annibynnol, a'r aelod lleyg presennol yw Mr Paul Whitham.

4.3 Mynychir pob cyfarfod Pwyllgor gan Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro a Phennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor neu gynrychiolwyr ar eu cyfer. Yn

ychwanegol at hynny, mynychir pob cyfarfod gan swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru.

4.4 Yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn, mae’r Pwyllgor wedi derbyn nifer o adroddiadau blynyddol mewnol ar faterion yn ymwneud â llywodraethu. Mae’r rhain wedi cynnwys:

4.4.1 Adroddiad Datganiad Llywodraethu Blynyddol – mae’r adroddiad hwn yn darparu hunanasesiad o drefniadau llywodraethu a gwelliant y Cyngor ar gyfer 2018-19, sy’n cynnwys ‘datganiad llywodraethu blynyddol’ y Cyngor. Nid oedd unrhyw fater llywodraethu sylweddol i adrodd arno. Caiff materion llai arwyddocaol eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella Trefniadau Llywodraethu a gaiff ei fonitro gan y Pwyllgor.

4.4.2 Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol – dyma adroddiad gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch Corfforaethol er mwyn darparu sicrwydd i’r Pwyllgor bod y Cyngor yn adrodd ac yn monitro damweiniau a digwyddiadau; y cynllunnir gweithgareddau yn unol â gwybodaeth a ddarperir gan ddadansoddiad o’r bylchau a’r peryglon gwasanaeth; ac y darperir hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae’r asesiadau cyffredinol o ddull Cyngor Sir Ddinbych o weithredu systemau iechyd a diogelwch ac o’r modd y mae gweithwyr yn ymwneud ag iechyd a diogelwch ill dau yn cyrraedd yswiriant canolig (melyn). Yn gyffredinol, golyga hyn bod y Cyngor yn datblygu ac yn cofnodi systemau rheoli iechyd a diogelwch. Ar y cyfan, nodir a rheolir peryglon sylweddol er mwyn lleihau risg. Ar y cyfan, mae gweithwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a defnyddio systemau rheoli iechyd a diogelwch. Nododd y Pwyllgor y byddai diogelwch tân yn destun adroddiad ar wahân yn y dyfodol, ond gofynnodd bod yr adroddiad yn cael ei ystyried yr un pryd â’r adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

4.4.3 Adroddiad yr Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth – Mae gan yr Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth gyfrifoldeb penodol i sicrhau y rheolir gwybodaeth a ddelir gan y Cyngor yn ddiogel, yn effeithiol, ac yn unol â deddfwriaeth. Mae’r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am unrhyw achos o dorri gofynion diogelu data a allai fod wedi digwydd ac yn nodi a oes unrhyw fater neu duedd sy’n gofyn am gamau gweithredu pellach. Mae’r adroddiad yn cynnwys data ystadegol yn ymwneud â cheisiadau am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a nifer y cwynion a wnaed i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ni chafwyd achos sylweddol o dorri rheolau data yn ystod y cyfnod adrodd. Cafwyd nifer o achosion bychain o dorri rheolau data yn ymwneud â chyfeiriadau anghywir ar ohebiaeth a cholli gwaith papur. Ymchwiliwyd i’r achosion ond ni ystyriwyd yr un ohonynt yn ddigon difrifol i roi gwybod amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

4.4.4 Adroddiad Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 - mae’n gyfrifoldeb ar yr Uwch-Swyddog Cyfrifol i gyflwyno adroddiad blynyddol i’r Pwyllgor am ddefnydd ac arfer y Cyngor o bwerau gwyliadwriaeth

dan y ddeddf hon. Nid oes unrhyw wyliadwriaeth wedi'i chynnal yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Mae Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio wedi cynnal arolygiad ar ffurf adolygiad bwrdd gwaith a ddaeth i'r casgliad bod ceisiadau ac awdurdodiad y Cyngor o safon dda yn ystod y cyfnod hwn.

4.4.5 Adroddiad Blynyddol ar y Cyfansoddiad - mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad blynyddol ar y Cyfansoddiad ac unrhyw ddiweddariad sydd angen ei wneud iddo. Argymhellwch rai newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor a'i enw. Cyfeiriwyd at uno dau bwyllgor i ffurfio Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ar Gysylltiadau Gweithwyr ac Iechyd a Diogelwch. Roedd yna hefyd ychydig o newidiadau i'r cynllun dirprwyo o ganlyniad i sefydlu Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

4.4.6 Roedd yr adroddiad blynyddol ar rannu pryderon i fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2020 ond, oherwydd y pandemig, bu'n rhaid canslo'r cyfarfod. Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried ym mis Ionawr 2021 ac yn ymdrin â chyfnod hirach. Ymddengys nad oes unrhyw adroddiadau blynyddol eraill nas cyflwynwyd

4.5 Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn nifer o adroddiadau blynyddol yn ymwneud â materion ariannol. Mae'r rhain wedi cynnwys:

4.5.1 Datganiad Cyfrifon – pob blwyddyn mae'n rhaid i'r Pwyllgor gymeradwyo Datganiad Cyfrifon y Cyngor er mwyn i Gadeirydd y Pwyllgor a'r Swyddog Adran 151 eu llofnodi a'u cadarnhau. Mae'r cyfrifon yn cynnwys toreth o wybodaeth, ac felly cyflwynir drafft i'r Pwyllgor mewn cyfarfod cyn toriad yr haf, gan gyflwyno'r datganiad cyfrifon terfynol i'w gymeradwyo ym mis Medi er mwyn rhoi digon o gyfle i'r Pwyllgor archwilio a chraffu ar y dogfennau. Cymeradwywyd y cyfrifon.

4.5.2 Rheoli Trysorlys – mae'r Pwyllgor yn derbyn dau adroddiad ar swyddogaethau rheoli trysorlys y Cyngor yn flynyddol. Mae'r adroddiadau yn cyflwyno manylion am gyllid cyfalaf, benthyca, ad-drefnu dyledion a thrafodion buddsoddi yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r adroddiadau hefyd yn delio â goblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys, ac yn nodi cydymffurfiaeth â therfynau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

4.6 Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn Adroddiadau Rheoleiddio Allanol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r Pwyllgor wedi derbyn yr adroddiadau canlynol:

4.6.1 Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru – cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor a'r Cyngor Llawn ac mae'n grynodeb o waith archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys astudiaethau ar graffu. Ar y cyfan mae'r adroddiad yn un cadarnhaol ynghylch y Cyngor ac nid yw'n cynnwys unrhyw argymhelliad sylweddol ar gyfer newid. Cyflwynwyd pump 'cynnig ar gyfer gwelliant' i'r Cyngor ynghyd â'r camau gweithredu ynghlwm wrth bob un ohonynt.

4.6.2 Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru - derbyniodd y Pwyllgor lythyr archwilio blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r llythyr yn datgan bod Swyddfa Archwilio Cymru yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn economaidd, effeithlon ac effeithiol ac nad yw eu gwaith hyd yma o ran ardystio hawliadau grantiau a ffurflenni wedi gweld unrhyw broblem sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2019-20 neu systemau ariannol allweddol. Nodwyd fod gan y Cyngor hanes blaenorol o reoli ei gyllid, ond y bydd yr heriau ariannol sylweddol yn parhau yn y tymor canolig.

4.6.3 Adolygiad Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru o Awdurdodau Lleol - mae llythyr blynyddol AGC yn darparu adborth ar weithgarwch archwilio a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Mae'n adrodd ar gynnydd yr awdurdod lleol o ran gweithredu argymhellion archwiliadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion ac yn amlinellu rhaglen gwaith i'r dyfodol AGC. Mae'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwella yn cyd-fynd â rheiny yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a byddant yn cael eu cynnwys yng Nghynlluniau Busnes y gwasanaethau ar gyfer 2019 - 2020.

4.6.4 Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau Diogelu Corfforaethol - daeth yr adolygiad i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu ond bod angen gwella'r gwaith monitro ac adrodd ar berfformiad. Mae'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwella yn cyd-fynd â rheiny yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a byddant yn cael eu cynnwys yng Nghynlluniau Busnes y gwasanaethau ar gyfer 2019 - 2020.

4.7 Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn copïau o adroddiadau archwilio mewnol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, derbyniwyd yr adroddiadau canlynol:

4.7.1 Ym mis Gorffennaf 2019 cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr Adroddiad Archwilio Mewnol 2018/19 a oedd yn darparu sicrwydd yn seiliedig ar waith yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod:

"Roedd y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth a oedd mewn lle ar gyfer swyddogaethau busnes allweddol yn foddhaol ar y cyfan, ac roedd perthynas dda gyda'r rheolwyr lle maent yn rhannu'n agored y meysydd lle gwelant broblemau posibl ac yn ystyried canlyniadau'r gwaith archwilio fel cyfle i wneud gwelliannau."

4.7.2 Mae'r Prif Archwilydd Mewnol yn adrodd ar ganlyniadau aseiniadau archwilio i'r Pwyllgor fel rhan o Adroddiad Gwybodaeth Ddiweddaraf Archwilio Mewnol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau sicrwydd 'isel' neu 'dim sicrwydd' ar wahân, a rhoddwyd sicrwydd isel (oren) i dri archwiliad yn ystod y flwyddyn. Er bod yr archwiliadau hyn yn nodi meysydd lle mae angen gwella trefniadau rheoli, nid oedd yr un yn ddigon arwyddocaol o ran y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio yn monitro'r risgiau

sy’n gysylltiedig â’r adolygiadau hyn fel rhan o’i Raglen Gwaith I'r Dyfodol. Darperir crynodeb o’r adroddiadau sicrwydd cyfyngedig isod:

4.7.3 Adran 106 - Mae cytundebau dan Adran 106 yn gofyn i dirfeddianwyr wneud darpariaethau, ar eu traul eu hunain, ar gyfer tai fforddiadwy a/neu gyfraniadau ariannol tuag at dai fforddiadwy, addysg neu fannau agored fel rhan o’u caniatâd ar gyfer eu datblygiad, beth bynnag fo maint a math y datblygiad hwnnw. Er gwaethaf y cynnydd da gyda rhai elfennau o’r broses Adran 106, roedd yna nifer o wendidau sylweddol yn ymwneud â’r fframwaith trosfwaol a oedd angen sylw, gan gynnwys sefydlu cofrestr ganolog o gytundebau Adran 106 y mae modd i bob parti perthnasol ei gweld a’i monitro rhag ofn i drefniadau achos ddod i ben neu gael eu disodli.

4.7.4 Cynhaliwyd yr archwiliad o gyllidebau cymorth a thaliadau uniongyrchol pan oedd darpariaethau cyllidebau cymorth a thaliadau uniongyrchol yn mynd trwy gyfnod pontio, gyda dogfennau, prosesau a gweithdrefnau’n cael eu hadolygu. Fodd bynnag, mae ambell i aelod o staff yn dal yn ansicr ynghylch y trefniadau presennol ac nid yw’r broses wedi'i sefydlu yn iawn. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys: gwybodaeth anghywir, anghysondebau neu anodd cael mynediad, y broses ar gyfer adolygu canlyniadau ddim yn ddigon cadarn, a ffurflenni gwariant ddim bob tro ar gael.

4.7.5 Roedd yr archwiliad tenantiaeth yn canolbwyntio ar wiriadau dilysrwydd, polisïau a gweithdrefnau, is-osod a lletywyr a chamddefnyddio tenantiaeth. Bu i ni amlygu’r materion yn ymwneud ag anghywirdebau data a diffyg archwiliadau tenantiaeth i wirio a yw gofynion y cytundeb tenantiaeth yn cael eu bodloni e.e. pobl gyfreithlon yn byw yn yr eiddo a dim is-osod neu letywyr heb eu hawdurdodi. Yn ystod yr adolygiad, cadarnhaodd y gwasanaeth bod yr archwiliadau tenantiaeth yn dechrau gyda hyn.

4.7.6 Roedd Strategaeth Archwilio Mewnol 2019/20 a’r Siarter Archwilio Mewnol i fod i gael eu cyflwyno i’r Pwyllgor ym mis Mawrth 2020; fodd bynnag, cafodd y cyfarfod ei ganslo ar fyr rybudd oherwydd y pandemig a phenderfynodd y Pwyllgor ystyried y rhain o bell ym mis Gorffennaf 2020.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gwaith y Pwyllgor wrth graffu ar faterion ariannol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gost uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw gynnig ond yn hytrach mae'n adroddiad ar y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O ganlyniad, nid oes angen unrhyw asesiad o'r effaith.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

Mae'r Pwyllgor wedi derbyn a gwneud sylwadau ar ddrafft o'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Pwyllgor yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae craffu'n effeithiol ar brosesau, systemau a thrafodion ariannol sylweddol yn elfen hanfodol o reolaeth fewnol ac mae'n rhoi lefel o sicrwydd i'r Cyngor ehangach a deiliaid budd-dal eraill.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Os na cheir Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio effeithiol ni cheir trosolwg o lywodraethu corfforaethol y Cyngor, sy'n rhan allweddol o berfformiad da. Gall llywodraethu corfforaethol gwan gyfrannu at fethiannau o ran darparu gwasanaethau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad o ganlyniad i'r adroddiad hwn.